Cyngor Sir Caerfyrddin

Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd

Adroddiad Blynyddol 2023-2024

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Adroddiad Blynyddol

Tudalen Mynegai

Rhagair	Tudalen 3
Cylch Gwaith y Pwyllgor	Tudalen 4
Aelodaeth	Tudalen 5
Cyfarfodydd a phresenoldeb	Tudalen 6
Materion a chanlyniadau allweddol 2022-23	Tudalennau 7-9
Swyddogaeth Cymorth Democrataidd	Tudalennau 10-11
Gwybodaeth Gyffredinol	Tudalen 12

ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 2023/2024

Cyfarfu Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd deirgwaith yn ystod blwyddyn y cyngor 2023/2024.

Mae'r adroddiad a atodir yn rhoi crynodeb byr o rôl y Pwyllgor a'r gwaith yr oedd wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn.

Hoffwn ddiolch i'r Cynghorydd Lewis Davies a Gadeiriodd y Pwyllgor tan fy mhenodiad ym mis Tachwedd 2023 am ddiwydrwydd ac arweinyddiaeth.

Hoffwn fynegi diolch a gwerthfawrogiad i aelodau'r Pwyllgor am eu hamser, eu hymroddiad a'u cefnogaeth yn ystod y flwyddyn, ac i'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd am y cyngor a'r arweiniad y maent wedi'i roi i Gynghorwyr, Aelodau Cyfetholedig Statudol, Swyddogion a'r cyhoedd.

Y Cynghorydd Michael Cranham

Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd

Cylch Gwaith y Pwyllgor

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Cyngor Sir a Chyngor Bwrdeistref Sirol sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a nodir cylch gwaith y Pwyllgor yn Adran 11 y mesur hwn, sef:

- arfer swyddogaeth yr Awdurdod Lleol o dan adran 8(1)(a) (dynodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd),
- adolygu pa mor ddigonol yw'r ddarpariaeth gan yr Awdurdod o ran staff, llety ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, a
- llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r Awdurdod ynghylch y ddarpariaeth honno.

Yn ei gyfarfod ar 17 Ebrill 2013, cytunodd y Cyngor ar argymhelliad gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i gynnwys y cyfrifoldebau ychwanegol canlynol yn rhan o swyddogaethau/cylch gwaith y Pwyllgor:

- Sicrhau bod cyfleoedd hyfforddiant a datblygu rhesymol yn cael eu darparu i Gynghorwyr a llunio adroddiadau ac argymhellion i'r Cyngor ynghylch y ddarpariaeth honno;
- Penodi Hyrwyddwr Datblygu Aelodau ar gyfer y Cyngor;
- Ymgynghorir â'r Pwyllgor ynghylch rhoi cynnwys adroddiadau a gyhoeddir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar waith mewn perthynas â lwfansau aelodau ac ati;
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da gan y Cyngor.

Ychwanegodd Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 adran 11A sy'n nodi y gall Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd, ar gais yr awdurdod, adolygu unrhyw fater sy'n berthnasol i'r canlynol:

(a) y cymorth a'r cyngor sydd ar gael i aelodau'r Awdurdod hwnnw, a

(b) telerau ac amodau swydd yr aelodau hynny.

Aelodaeth Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd 2023-24

Roedd aelodaeth Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd rhwng 24 Mai 2023 a 21 Mai 2024 yn cynnwys 5 aelod sy'n wleidyddol gytbwys:

Y Cynghorydd Michael Cranham (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Tyssul Evans (Is-gadeirydd)

Y Cynghorydd Russell Sparks

Y Cynghorydd Fiona Walters

Y Cynghorydd Philip Warlow

Cyn-aelodau – Y Cynghorydd Lewis Davies Mai 2023 – Tachwedd 2023 a'r Cynghorydd Hazel Evans – Mai 2023 – Medi 2023.

Cyfarfodydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd yn ystod 2023-2024

9 Mehefin 2023

7 Medi 2023

5 Rhagfyr 2023

Presenoldeb Aelodau Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd

Nodir y ffigurau presenoldeb ar gyfer cyfarfod ffurfiol y Pwyllgor isod.

Y Cynghorydd	Cyfarfodydd a fynychwyd
Michael Cranham Yr Aelod Cabinet o 8 Tachwedd 2023)	1
Lewis Davies (Cadeirydd ac Aelod o'r Pwyllgor tan 4 Medi 2023)	1
Hazel Evans (Aelod Cabinet tan 13 Medi 2023)	2
Russell Sparks (Aelod Cabinet o 13 Medi 2023)	0
Tyssul Evans	3
Fiona Walters	1
Philip Warlow	3
Kim Broom	1 (dirprwy)

MATERION A CHANLYNIADAU ALLWEDDOL 2023-2024

Yn ystod y flwyddyn, trafododd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiadau canlynol, a chynhwysir crynodeb byr ar gyfer pob pwnc a chanlyniad fel sy'n briodol:

1. ADOLYGIAD O BROSES YMHOLIADAU'R AELODAU

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar ganlyniad adolygiad o broses ymholiadau'r Aelodau, a gynhaliwyd yn dilyn adborth gan Aelodau etholedig, a oedd wedi ymchwilio i weld a oedd y weinyddiaeth a'r gweithdrefnau oedd ar waith yn gweithio'n effeithiol ac a oedd modd gwneud unrhyw welliannau.

Canlyniad:

Cytunodd y Pwyllgor i 8 argymhelliad i wella a moderneiddio'r broses Ymholiadau ar gyfer Aelodau.

2. Diweddariad ar werthuso Rhaglen Sefydlu'r Aelodau a'r Cynllun Datblygu Blynyddol arfaethedig 2023/2024

Cafodd y Pwyllgor adroddiad ynghylch Rhaglen Sefydlu'r Aelodau a lansiwyd ar 18 Mai 2022 ac a oedd yn cynnwys cyfanswm o 40 sesiwn ddatblygu ar gyfer yr aelodau oedd yn dychwelyd a'r rhai oedd newydd eu hethol. Cafodd yr aelodau gyfle i fynychu'r rhan fwyaf o'r sesiynau naill ai o bell drwy Zoom a/neu wyneb yn wyneb yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin. Cafodd rhai sesiynau eu recordio ac roedd y rhain ar gael ar ddiwedd y sesiwn drwy'r platfform e-ddysgu.

Canlyniad:

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y manylion presenoldeb ym mhob sesiwn ddatblygu gan gefnogi cynnal Grwpiau Ffocws i gael adborth gan aelodau.

3. Adroddiadau Blynyddol y Cynghorwyr

Bu'r Pwyllgor yn ystyried templed drafft ar gyfer cwblhau Adroddiadau Blynyddol y Cynghorwyr.

O dan Fesur Llywodraeth Lleol (Cymru) 2011 rhaid i awdurdodau lleol ddarparu cyfleusterau i Gynghorwyr ar gyfer llunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol, ac i roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith fod disgwyl i Gynghorwyr lunio adroddiadau blynyddol ynghylch eu gweithgareddau.

Fodd bynnag, nid oedd adroddiadau blynyddol yn orfodol ac roedd yn fater personol i Gynghorwyr p'un a oeddent yn dymuno cyhoeddi Adroddiad Blynyddol.

Cafodd y templed adroddiadau, wedi'i gymeradwyo, ei ddosbarthu i'r holl Aelodau. Yna gallai'r Aelodau Etholedig hynny a oedd am lunio Adroddiad Blynyddol gwblhau drafft cychwynnol o'u hadroddiad ar gyfer blwyddyn y cyngor.

Canlyniad:

Cymeradwyodd y Pwyllgor y templed adroddiadau, a rhoddwyd copi i bob Aelod i'w gwblhau, pe byddent yn dymuno gwneud hynny.

4. The Jo Cox Commission on Civility

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn crynhoi cynnydd comisiwn Jo Cox Commission on Civility wrth godi ymwybyddiaeth o'r effaith niweidiol y mae'r lefelau presennol o gamdriniaeth a bygwth mewn bywyd gwleidyddol yn ei chael ar unigolion, democratiaeth a chymdeithas. Lansiwyd y Comisiwn ar 28 Chwefror 2023 ac roedd yn ceisio sbarduno newid yn nemocratiaeth Prydain trwy weithio i ddod o hyd i atebion ymarferol i wneud bywyd yn fwy diogel i gynrychiolwyr gwleidyddol ac ymgeiswyr am swyddi.

Canlyniad:

Byddai Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn anfon llythyr at y Comisiwn yn cadarnhau cefnogaeth y Cyngor a'i barodrwydd i gymryd rhan yn ei waith.

5. Swyddogaeth y Gwasanaethau Democrataidd

Mynegwyd pryderon ynghylch nifer y staff o'r adain Gwasanaethau Democrataidd sy'n ofynnol i gefnogi cyfarfodydd aml-leoliad yn barhaus, yn enwedig gan nad oedd adnoddau ychwanegol wedi'u darparu. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod Llywodraeth Cymru, a oedd wedi awdurdodi cyfarfodydd aml-leoliad, wedi cael gwybod am y mater a oedd yn effeithio ar bob awdurdod lleol yng Nghymru ond nad oedd wedi dyrannu unrhyw gyllid ychwanegol.

Canlyniad:

Cafodd pryderon y Pwyllgor ynghylch adnoddau staffio ar gyfer y Swyddogaeth Ddemocrataidd eu cyfleu i Lywodraeth Cymru ac mae ei hymateb ynghlwm – Atodiad 1 ar ddiwedd y ddogfen hon (tudalennau 13 – 14).

6. Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad

Cafodd y Pwyllgor adroddiad yr oedd diwygiadau arfaethedig i Bolisi Cyfarfod Aml-leoliad yr Awdurdod wedi'u hatodi iddo.

Cafodd Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad yr Awdurdod ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 12 Hydref 2022 (gweler cofnod 4.1) gan ystyried y canllawiau statudol dros dro a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei chanllawiau terfynol ar 7 Gorffennaf 2023 ac o ganlyniad ystyriwyd ei bod yn briodol adolygu'r polisi yn seiliedig ar brofiad yr Awdurdod o gyfarfodydd aml-leoliad hyd yma.

Roedd y diwygiadau arfaethedig i'r polisi, yn seiliedig ar adborth gan Gadeiryddion Pwyllgorau, yn cynnwys mwy o ganllawiau ar y defnydd o gamerâu ar gyfer pobl sy'n ymuno o bell er mwyn cynnal uniondeb proses gwneud penderfyniadau'r Awdurdod a lleihau'r cyfle am her gyfreithiol yn hyn o beth.Roedd mân welliannau mewn ymateb i lacio cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â Covid a hefyd cynigiwyd methodoleg o ran pleidleisio.

Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd cyfarfodydd aml-leoliad o safbwynt hygyrchedd fel ffordd o wella a chefnogi democratiaeth leol a galluogi Aelodau i weithio'n fwy cynhyrchiol.

Canlyniad:

Cyflwynodd y Cadeirydd y polisi diwygiedig i'r Cyngor ar 24 Ionawr 2024 a mabwysiadwyd y polisi diwygiedig.

Cymorth Swyddogaeth Ddemocrataidd:

Mae adnoddau staffio i gefnogi'r Gwasanaeth Democrataidd wedi'i rannu'n dri thîm gwahanol:

a) Cymorth i Bwyllgorau
b) Cymorth Dinesig a Chymorth i Aelodau
(mae'r ddau o dan reolaeth Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd)
c) Cymorth i'r Cabinet
(o dan reolaeth Rheolwr Cymorth Busnes y Prif Weithredwr)

Yn ogystal â fi, fel Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, mae'r Tîm Democrataidd yn cynnwys 2 Ben-swyddog Gwasanaethau Democrataidd, 5 Swyddog Gwasanaethau Democrataidd, 1 Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Cynorthwyol, 3 Swyddog Cymorth i'r Aelodau, a 3 gyrrwr achlysurol y gelwir arnynt yn ôl yr angen.

Mae'r Tîm Democrataidd yn ymdrin ag ystod eang o weithgareddau, sy'n cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Cynnal a datblygu prosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor gan gynnwys paratoi agendâu, adroddiadau a chofnodion, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau a wneir yn atebol ac yn dryloyw.
- Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i gynnull cyfarfodydd aml-leoliad (hybrid). Mae hyn yn golygu y gall cyfranogwyr ymuno naill ai wyneb yn wyneb yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin neu o bell ac mae'r cyfarfodydd yn cael eu cyfuno fel un gan ddefnyddio darn arbenigol o dechnoleg.
- Gweddarlledu holl gyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd Pwyllgorau.
- Rheoli a darparu cefnogaeth Craffu a Gwasanaethau Pwyllgor i'r Cyngor a'i amrywiol Bwyllgorau.
- Darparu gwasanaethau cymorth i Aelodau Etholedig, gan gynnwys cynnal a rheoli gwybodaeth leol am gynghorwyr ar ein gwefan (gan gynnwys gwybodaeth am ddatganiadau buddiannau; rhoddion a lletygarwch; aelodaeth pwyllgorau; cydnabyddiaeth ac ati) a darparu gwasanaeth cymorth ar gyfer ymholiadau a chyngor ar Gyfansoddiad y Cyngor a Chôd Ymddygiad yr Aelodau.
- Gweinyddu apeliadau yn ymwneud â derbyniadau i ysgolion a gwaharddiadau parhaol o ysgolion.
- Gwasanaethu a chynnal trefniadau cydweithio sef Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Cyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru a'r Bartneriaeth.
- Gweinyddu trefniadau Llywodraethu ar gyfer cwmnïau hyd braich y Cyngor - Grŵp Llywodraethu Llesiant Delta a Bwrdd Cyfranddalwyr CWM Environmental Ltd.
- Rheoli cyfarfodydd mewnol rhwng Arweinwyr Grwpiau, Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad, cyfarfodydd Aelodau'r Cabinet gyda Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu, ymhlith eraill.

- Rheoli gwaith achos etholaethol yr Aelodau drwy system Ymholiadau Aelodau, prosesu treuliau Aelodau a gwneud trefniadau ar gyfer mynd i gynadleddau a seminarau.
- Cynorthwyo Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn eu dyletswyddau dinesig.
- Datblygu a diweddaru'r gwe-dudalennau Democratiaeth a rheoli archebion am ystafelloedd democrataidd.

Mae Uned Cymorth Busnes y Prif Weithredwr yn cefnogi gwaith yr Arweinydd a'r 9 Aelod Cabinet ac yn cynnwys tîm bach o staff. Mae Swyddfa'r Cabinet yn darparu cyngor proffesiynol, yn ymchwilio ac yn casglu gwybodaeth, yn paratoi areithiau, yn rheoli gohebiaeth o ddydd i ddydd ac yn cydlynu'r dyddiadur.

Swyddogaeth Ddemocrataidd - Yn Gryno…

- Mae'r Gwasanaethau Democrataidd yn rheoli proses gwneud penderfyniadau'r Cyngor. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn cyflwyno sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut y gwneir penderfyniadau, a'r gweithdrefnau a ddilynir i sicrhau bod y rhain yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Mae rhai o'r prosesau hyn yn gyfreithiol ofynnol, tra bod eraill yn fater o ddewis i'r Cyngor.

- Daeth 3,080 o ymholiadau i law gan aelodau yn ystod 2023/24, gostyngiad o 21% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (4,365) oherwydd bod ceisiadau am wasanaeth yn cael eu cofnodi ar wahân yn unol â chanfyddiadau'r adolygiad o broses Ymholiadau'r Aelodau. Ymatebwyd i dros 76% o ymholiadau o fewn 7 diwrnod gwaith, gwelliant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (73%).

- Roedd y gwasanaeth yn allweddol wrth gyflawni argymhellion yr Adolygiad o Ymholiadau Aelodau ac yn enwedig gweithredu'r Porth Aelodau Ar-lein newydd a lansiwyd ym mis Chwefror 2024, ac yn darparu llwyfan newydd a gwell i aelodau fewngofnodi a monitro ceisiadau gwasanaeth ac ymholiadau gan Gynghorwyr.

- Mae cyflwyno deisebau ar-lein wedi profi'n effeithiol ac wedi cael ei ddefnyddio gan y cyhoedd ac mae wedi cael ei drosglwyddo drwy'r broses ddemocrataidd yn llwyddiannus. Cyflwynwyd chwe e-ddeiseb yn ystod y flwyddyn ac un ddeiseb copi caled.

- Mae cyfarfodydd aml-leoliad (hybrid) sy'n un o ofynion cyfreithiol Deddf 2021, wedi profi'n llwyddiannus gan ddarparu'r dewis o leoliad i'r mynychwyr. Mae hyn wedi cael ei reoli er nad oes cynnydd wedi bod mewn adnoddau staffio.

- Mae'r gwasanaeth yn parhau i weinyddu trefniadau cydweithio ar gyfer Cyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru, Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, a Partneriaeth ac mae ganddo hefyd gyfrifoldeb am weinyddu Grŵp Llywodraethu Llesiant Delta a Bwrdd Rhanddeiliaid CWM.

- Agorwyd 308 o ffeiliau apêl derbyniadau i ysgolion rhwng 1 Mai 2023 a 30 Ebrill 2024, yn ogystal â dwy apêl gwahardd.

- Cafodd dros 500 o gyfarfodydd eu trefnu a'u gwasanaethau gan y Tîm yn ystod y flwyddyn (mae'r ffigur yn cynnwys cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol a chyfarfodydd y Panel Apêl Addysg).

- Cafwyd 127 o weddarllediadau yn ystod blwyddyn y cyngor.
- Mae'r gwasanaeth yn parhau i weithio gyda Dysgu a Datblygu ar hyfforddi a datblygu Aelodau ac yn dilyn adolygiad o Ymholiadau'r Aelodau cynhaliwyd rhaglen dreigl ragweithiol o sesiynau ymwybyddiaeth o wasanaethau i'r Aelodau a bydd hyn yn parhau.
- Mae'r gwasanaeth yn parhau i wynebu heriau o ran adnoddau, yn enwedig oherwydd absenoldeb salwch tymor hir o fewn tîm Cymorth Pwyllgorau a hefyd rhewi trefniadau recriwtio. Mae'r gwasanaeth yn ymwybodol o'r cyd-destun ariannol ehangach sy'n wynebu'r Cyngor, a'r angen ar bob adran i nodi effeithlonrwydd yn unol ag amcanion Cynllunio Ariannol yr Awdurdod Lleol.

Gwybodaeth Gyffredinol

Mae cyfarfodydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn gyfarfodydd cyhoeddus ac mae pob cyfarfod yn cael ei gynnal yn gyhoeddus, ac eithrio eitemau cyfrinachol. Cyhoeddir yr holl bapurau cyhoeddus ar-lein ar https://democratiaeth.sirgar.llyw.cymru/ieListMeetings.aspx?CommitteeId=152

Mae'r Cyngor yn awyddus i weld aelodau o'r cyhoedd yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a holl gyfarfodydd eraill y Cyngor, gan gynnwys cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet, Craffu a Rheoleiddio. Ceir rhagor o wybodaeth yn ein Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd.

Gall y Gwasanaethau Democrataidd ddarparu rhagor o wybodaeth:

GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.ukneu ar 01267 224028.

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref RE/00281/23

Cllr Davies
Chair, Carmarthenshire Council Democratic Services Commit

DemocraticServices@carmarthenshire.gov.uk

01 August 2023

Dear Councillor Davies,

Thank you for your correspondence seeking financial assistance in connection with the implementation of the provisions within the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 (the 2021 Act).

The broad range of provisions in the 2021 Act will have impacted on each local authority differently depending on the arrangements already in place. Many of the provisions were developed in collaboration with local authorities during the years preceding the provisions coming into force and as such local authorities were able to plan and prepare for the changes, many of which represented what was already happening.

It is important that members are supported in their role and that democratic services teams are able to set out the resources needed to provide that support in a way that allows members to maximize opportunities to represent the needs of their communities. The consolidated guidance recently issued to principal councils was strengthened to highlight this point and my officials have recently held a series of discussions with representatives of individual democratic services teams across Wales about the implementation of the 2021 Act. I look forward to receiving feedback from those discussions shortly.

You raise the issue of Covid 19 and its effect on local government finances. During that difficult period, my cabinet colleagues and I were in regular contact with local government about the challenges being faced, and were as responsive as we could be in providing support. Additional costs relating to the changes to the democratic process were funded through the Local Government Hardship Fund.

In my role as Minister for Finance, I have to consider carefully how we balance the competing priorities identified across the different sectors in Wales. There is a process in place to determine the allocations to Local Government, and it is important that consideration be given to issues as part of this process. Once allocations to Local Government are made, it is - as you say - a matter for local authorities to determine their own internal allocations in light of the circumstances at that time.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

As we are all acutely aware, the fiscal outlook is very bleak. Inflation is squeezing public finances across the board. Unfortunately, this is the context in which we will be undertaking our 2024-25 Budget. During the Budget process for 2023-24 Welsh Ministers had to make some very difficult decisions, and I am afraid this will continue to be the case for the upcoming Budget.

I am acutely aware that this will continue to mean difficult decisions for local authorities too. Therefore, it is even more important we continue the strong partnership working we have already established and collectively find solutions to these very difficult choices we all must make.

I understand that during the meeting of the Democratic Services Committee held on 9th June the issue of multi-location meetings was raised as a significant factor in raising costs associated with council meetings. The flexibility for councils to hold meetings in Wales has been widely welcomed - indeed, it was with the support of Local Government that we were able to include arrangements in the 2021 Act to preserve and build on the measures put in place during the pandemic.

I recognise the challenges faced by Local Government in putting in place arrangements. Initially, there was a shift in resources required as more people had to be available in some local authorities to manage meetings. More than £850,000 was provided to principal councils to support the implementation of multi-location meetings and for broadcasting. Councils have reported benefits in supporting flexibility in meetings, including opportunities for economies elsewhere - such as travel and printing papers. There is also a reduction in the carbon footprint associated with meetings, as well as benefits relating to the safety of members, staff, and the public through a reduced requirement to travel, especially in dark winter evenings.

The impact has not been evaluated, but we will be reviewing the existing guidance by the end of year, and this will highlight issues that may need to be considered further.

In line with the provisions of the 2011 Measure I would expect this matter to be raised with the Council and for it to be considered internally as part of the Council's budget setting process.

My officials will continue to work with Local Government, the WLGA, and One Voice Wales to monitor progress in this area.

I am grateful to Democratic Services teams across Wales for the work that they do.

Yours sincerely,

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government